# CYD-BWYLLGOR GWE DYDD LLUN, 8 GORFFENNAF 2019

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam),Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelod Cyfetholedig heb Bleidlais:**
Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd)

**Swyddogion heb bleidlais:** Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy).

**Swyddogion yn bresennol:** Iwan Evans (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Hefin Owen (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Hywyn Jones (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (GwE), Bethan Roberts (GwE), Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd).

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod mis Medi.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Cyn mynd at i dderbyn yr ymddiheuriadau croesawyd Cyng. Julie Fallon i'w chyfarfod cyntaf a diolchwyd i'r Cyng. Garffild Lewis am ei gyfraniad dros y cyfnod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Ian Roberts, Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Claire Homard (Cyngor Sir y Flint), Dafydd L Edwards (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Sion Huws (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Mai 2019 fel

rhai cywir.

Ychwanegwyd o ran eitem 'Cyfrifon GwE' - gan fod un o Gyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE yn gadael ei swydd ni fydd y swydd yn cael ei hail-lenwi fel y bydd modd cwrdd â'r toriadau sydd eu hangen am eleni. Ychwanegwyd y bydd adroddiad yn dod ger bron yn fuan i nodi hyn yn llawn.

## 6. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2018/19

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2018/19

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fod Cydbwyllgor o fwy nac un awdurdod yn gorff Llywodraeth Leol, ac fod Adran 13 o'r ddeddf yn mynnu bod Cydbwyllgor yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwilwyr annibynnol. Ychwanegwyd fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn nodi ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA ar gyfer Cydbwyllgor. Pwysleisiwyd fod adroddiad "alldro" syml a chryno wedi ei gyflwyno ym mis Mai ac yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau llywodraethu. Ategwyd y bydd y datganiad yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte ac amlinellwyd y bydd adroddiad 'ISA 260' yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor ar 11 Medi 2019.

Tynnwyd sylw at rhai agweddau o'r datganiad gan gynnwys y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod y Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cydbwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod yr ymrwymiad wedi cynyddu yn 2018/19.

Amlygwyd fod newid mawr o ran Dyledwyr Tymor Byr am eleni yn bennaf o ganlyniad i arian nifer o grantiau wedi cyrraedd yn ystod, yn hytrach nag ar ôl, diwedd y flwyddyn ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd pam fod gwariant Eiddo wedi cynyddu cymaint eleni wrth gymharu gyda llynedd - nodwyd fod hyn gan fod GwE wedi symud i adeilad newydd ychydig drytach yn yr Wyddgrug, ond bod modd cynnal fwy o hyfforddiant yn yr adeilad newydd, sy'n galluogi GwE i ddenu incwm. Nodir bod y mater eisoes wedi'i amlygu wrth sefydlu cyllideb 2019-20 yng nghydbwyllgor GwE mis Chwefror 2019.
- Holwyd pam bod y nifer o staff derbyniodd tal dros £60,000 wedi cynyddu wrth gymharu gyda llynedd – Nodwyd bod y trothwy £60,000 heb newid ers blynyddoedd er i gyflogau gynyddu gyda chwyddiant tal.
- Holwyd pam fod grantiau wedi lleihau wrth gymharu gyda llynedd - nodwyd bod grantiau un tro wedi'i dderbyn yn 2017/18 a bod toriad i'r Grant Gwella Addysg yn 2018/19.
- Trafodwyd grantiau gan fynegi fod nifer o grantiau bellach wedi eu gosod oddi fewn y Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol.
- Gofynnwyd o dan y pennawd 'GGA - Ariannu Cyfatebol' pam nad oedd Wrecsam yn cyfrannu o gwbl - nodwyd bod hyn yn fater technegol gan mai asesiad cynghorau unigol oedd pa elfen o'u harian cyfatebol y diffinnir fel datganoledig neu heb ei ddatganoli. Nodwyd nid yw'r elfen ddatganoledig yn ymddangos yng

nghyfrifon GwE a bod cyfraniad gros arian cyfatebol yn cymharol gyson wrth ystyried yr elfen ddatganoledig a'r elfen heb ei ddatganoli. Cynigwyd i gyflwyno papur fyddai'n amlygu'r mater i'r cydbwyllgor nesaf os oedd dymuniad, gwrthodwyd y cynnig.

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2018-19

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y datganiad hwn yn cael ei gyflwyno yn flynyddol, Nodwyd fod GwE yn gyfrifol am gynnal adolygiad effeithlonrwydd o'i fframwaith Llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Gofynnwyd pwy sydd yn dal GwE yn atebol ac o ran polisïau a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor. Manylwyd ar y drefn o lywodraethu gan nodi cyfarfodydd craffu gydag Awdurdodau Lleol, ymweliadau gan Estyn ynghyd â chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd Rheolwr Cyfarwyddwr GwE fod yr atebolrwydd allanol yn drwm.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd faint yw gwerth yr adolygiadau i GwE a beth yw cost eu cynnal. Gofynnwyd a oes trefn well y gallai GwE ei ddefnyddio fel eu bod yn osgoi'r gost.
- Mynegwyd fod GwE yn gorff eithaf ifanc ac yn drefn partneriaeth, felly mae rheoleiddio aml i sicrhau fod y gwaith partneriaeth yn gweithio.
- Nodwyd fod adroddiadau allanol yn bwysig a bod cylch awdurdodau lleol a rhanbarthol yn dynn

## 8. COFRESTR RISG

PENDERFYNIAD

Derbyn y gofrestr risg ddiweddaraf.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y gofrestr risg gan nodi fod y ddogfen yn un byw sydd yn cael ei ddiweddaru yn gyson. Mynegwyd fod addasiadau wedi ei gwneud ac awgrymwyd tynnu rhai risgiau allan o'r gofrestr. Ychwanegwyd bod y gofrestr yn cael ei hadolygu yn chwarterol gan y Cydbwyllgor.

## 9. YMGYSYLLTU A CHYMHEIRIAID

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo datblygu model Ymgysylltu â chymheiriaid yng ngogledd Cymru, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod disgwyliad i ysgolion fod yn hunan-wella ac yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill er mwyn codi safonau a lleihau'r bwch cyrhaeddiad. Mynegwyd y bydd categoreiddio ysgolion yn parhau am flwyddyn arall.

Nodwyd fod yr adroddiad yn ceisio nodi patrwm posib ar gyfer datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid. Ychwanegwyd fod y dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio mewn clwstwr. Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal droeon yn y Cydbwyllgor am ba mor gymhleth fydd yw'r holl newidiadau mewn ysgolion. Er hyn mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

Mynegwyd fod y model yn blaenoriaethu ysgolion ac wedi ei greu ar y cyd gydag ysgolion. Nodwyd fod yr egwyddorion wedi eu creu gyda Phenaethiaid a bod bron i 300 o benaethiaid wedi dangos diddordeb i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod creu'r model yma yn angenrheidiol. Drwy roi arian i glystyrau bydd yn rhoi'r cyfle iddynt benderfynu ar sut i benderfynu ar eu blaenoriaethau.
- Nodwyd fod 2020/21 yn flwyddyn ble na fydd arolygiadau Estyn yn cael eu cynnal. Bydd fframwaith arolygu newydd yn ystod 2021 a fydd wedi ei seilio ar gymheiriaid a chydweithio.

## 10. G6 - DIWEDDARIAD

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**